

Adroddiad Blynyddol gan Gyngorydd 2018/19

Hwn yw'r adroddiad gan y Cyngorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cyngorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

Cyngorydd: Gwilym O Jones

Parti: Y Grŵp Annibynnol

Ward: Llifon

1 - Rôl a Chyfrifoldebau

Rhwng Ebrill 2018 a Mawrth 2019, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol:	Crynodeb o Bresenoldeb
Cyngor Sir Ynys Môn	Manylion ar wefan y Cyngor: Presenoldeb
Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)	
Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu	
Pwyllgor Buddsoddi A Chontractau	
Pwyllgor Cyswllt Y Sector Gwirfoddol	
Pwyllgor Safonau - Panel Penodi	
Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio (Cadeirydd)	
Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn	
Nid yw'r rhestr uchod yn cynnwys pob cyfarfod sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir.	
Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel deilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrff allanol, er enghraifft.	

Rwy'n aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn. Rwyf hefyd yn aelod o Bwyllgor Buddsoddi a Chontractau'r Ymddiriedolaeth – mae manylion am fy mhresenoldeb yn y cyfarfodydd hyn ar gael hefyd ar y ddolen uchod.

Rwy'n cynrychioli'r Cyngor ar y gyrff allanol canlynol:

Corff allanol	Crynodeb o rôl a chyfraniad
Grŵp Rhanddeiliad y Safle Wylfa	Gweler: http://www.ysgoluwchraddbodedern.org/ysgol.html
Llywodraethwr - Ysgol Gynradd Y Fali	
Llywodraethwr - Ysgol Uwchradd Bodedern	

Pencampwr Sgrwtini	
Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol	

2 - Gweithgareddau yn yr Etholaeth

Rwy'n gweithredu fel aelod o Gyrrff Llywodraeth Ysgol Uwchradd Bodedern ac Ysgol Y Fali.

Rwyf yn aelod o Gyngor Cymuned Llanfair yn Neubwll ac yn mynychu cyfarfodydd Cyngorau Cymuned Y Fali a Llanfaelog fel sylwebydd. Bum yn delio ag amrywiaeth o bynciau a materion ar ran Etholwyr yn y Ward – naill ai'n bersonol, trwy ebost neu ar y ffôn.

3 - Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Parheais gyda'r trefniant gyda'm cyd aelod o gyfarfod etholwyr ardal Rhosneigr yn Neuadd y Pentref er mwyn trafod amrywiol bynciau.

Yn rhinwedd fy swydd fel Cadeirydd Pwyllgor Sgrwtini Partneriaeth ac Adfywio y Cyngor Sir, fe'm penodwyd yn Bencampwr Sgrwtini am y flwyddyn 2018/19.

4 - Dysgu a Datblygu

Mae gwybodaeth am y mentrau dysgu a datblygu rwyf wedi'u mynychu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar gael yma (gwybodaeth wedi'i ddarparu gan Gyngor Sir Ynys Môn):

<http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/mgListTraining.aspx?UID=31&RPID=500087296&LLL=1>

5 - Gweithgareddau a Materion Eraill

Bum draw fel rhan o ddirprwyaeth yng Nghyngor Powys i rannu gwybodaeth am waith llwyddiannus Panel Gwella Gwasanaethau Plant Cyngor Sir Ynys Môn. Yn ystod y flwyddyn bum mewn cyfarfodydd cyhoeddus i drafod ceisiadau cynllunio penodol yn Y Fali a Chaergeiliog, ac yna cefais gyfle i annerch y Pwyllgor Cynllunio i fynegi pryderon yr ardalwyr.

Mynychais Ysgol Uwchradd Bodedern unwaith yn rhagor i drafod fy nghwaith fel Cyngorydd Sir a thrafodaeth cyffredinol, ynglŷn a materion lleol gyda Blynnyddoedd 12 a 13.

Ceir rhagor o wybodaeth amdanaf yma:

<http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/mgUserInfo.aspx?UID=31&LLL=1>

Y Cyngorydd Gwilym O Jones	Ebrill 2019
----------------------------	-------------